

LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Ffatri Slimma-Dewhirst, Llanbedr Pont Steffan (1970 – 2001)

Cyfwelai: VSW009 Helena Gregson

Dyddiad: 27.11.13

Cyfwelydd: Susan Roberts ar ran Archif Menywod Cymru

There is an English summary at the end of the Welsh text

00.00.24: Gofynna i eich enw llawn chi'n gynta?

Helena Gregson.

00.00.33: A beth yw'r dyddiad geni?

24.1.55

A ble gesoch chi'ch geni?

Gatre ar y ffarm yn Cwmann.

A beth o'dd eich tad yn neud?

Ffarmo. A fi yw'r ifanca o saith o blant.

Jiw, bechgyn, merched?

Dwy wha'r a pedwar brawd.

Chi o'dd y babi te?

Fi o'dd y babi.

Beth o'dd Mam yn neud 'da chi?

Gwasanaethu o'dd hi, morwm o'dd hi cyn priodi, a wel sdim eisie gofyn beth o'dd hi'n neud wedyn. O'dd digon o waith 'da ddi'n magu saith o blant yndo'dd e?

Pwy fath o ffarm o'dd hi?

Da godro o'dd 'da ni. A defed a pethe fel 'na. O'dd tad a mam 'yn nhad, ar y ffarm cyn 'nny, wedi bod yn y teulu ers blynydde, a cymerodd 'ym mrawd i drosto wedyn ar ôl i nhad i farw, a wedyn mae'i fab e 'na nawr.

00.01.24: Ma' fe dal yn y teulu te?

Dal yn y teulu. Ody ma' fe neis, fi'n ca'l mynd gatre, fi'n galw fe gatre o hyd achos fan'na ges i'n geni a magu am ddeuddeg mlynedd ife.

00.01.35: A ble ethoch chi i'r ysgol?

Yn Llambed.

Ysgol fach yn Llambed ife?

Coedmor yn gynta yn Cwmann, a wedyn i Ysgol Llambed wedyn. A bennu fanna yn fifteen, dim diddordeb yn yr ysgol o gwbl.

O'ch chi'n teimlo'n eitha parod i adael te?

Yn barod, o'n. O'n i ddim yn lico'r ysgol. Gwaith llaw o'n i'n lico, dwylo. O'dd dim lot yn y pen. Ond 'na fe, sdim pawb yn gallu gwnïo wedyn o's e?

Nago's. Yn gwmws. Gethoch chi rhywfaint o waith fel 'na, gwnïo'n ysgol, chi'n gwbod.

O'n nhw'n dysgu chi'n ysgol?

Ychydig iawn, ond o'n i, chi'n gwbod o'dd dim television 'da ni amser o'n i'n blant ne' lectric na dim byd. O'dd machine bach gwnïo 'da fi, so 'na beth o'n i'n neud bob dydd Sadwrn o'dd troi coleri i brodyr fi, cryse, sheets wedyn, torri rheini trw'r canol os o'n nhw wedi mynd yn wan a joino'r tu fas, a o'dd y shïten yn para cwpwl o flynydde wedyn yndyfe?

00.02.28: O'ch chi'n berson handi i gael o gwmpas.

A patsho a pethach fel 'na. Wel, o'n. O'n i'n joio neud e, chi'n gwbod ife.

Ond o'dd rhywun wedi'ch dysgu chi?

Na.

Wedi pigo fe lan. O'dd ych mam wedi dangos y ffordd i chi?

Wel, o'dd mam yn gorfod gwnïo achos pan o'n i, wel o'dd saith o blant a dad ontife. So o'n i'n naw, so patsho a pethe fel 'na, chi'n gwbod, o'dd rhaid neud e. Ers slawer dydd o'n i ddim yn towlu dim lot pyr'nny a even y zip, os o'dd y trwser wedi mynd yn rhacs, o'ch chi'n datod a cadw fe i roi yn, os ele zip. Ne' torri bwtwne off popeth. O'dd dim byd yn ca'l mynd i'r bin heb, cadw pob bwtwm ers slawer dydd dofe.

00.03.03: O'dd mam yn neud yr un peth 'da fi. O'dd bocs bwtwne 'da ddi.

Na chi.

Ond iwsodd hi byth ohonyn nhw, ond o'n nhw 'da ddi.

Fi' gwbod, fi'n gwbod. O'n i'n joio neud e, chi'n gwbod ac amser des i wedyn yn 14, 15, dechre mynd mas, o'n i'n mynd lan walle, o'dd whiorydd fi, y ddwy ohonyn nhw lot yn henach na fi. A falle torren i ffroc, hen ffroc i'n wha'r lan yn sgert i fynd mas ar nos Sadwrn chi'n gwbod. Wel, o'dd dim arian 'da ni i brynu dillad, yntefe, fel ma' pobol ifainc nawr, a ni'n gwerthfawrogi fe dofe.

00.03.33: O'dd yr un deleit gyda'ch mam te, ne jest neud e achos bod rhaid?

Na, o'dd tipyn o deleit 'da mam yntefe, ond, a'r wha'r arall wedyn, cwcan ma' hi. So hi'n lico gwnïo o gwbl, ma'n od yntefe.

Ma' rhywbeth wahanol ynddon ni i gyd o's e?

Ody.

00.03.50: A pan o'ch chi ar fin gadael ysgol o'dd syniada 'da chi beth o'ch chi moyn neud?

Wel, na. O'dd 'yn nhad wedi marw a ar hyd y plentyndod o'n i'n gweud mai nyrs o'n i'n mynd i fod. Ond o'dd 'yn nhad mor wael yn yr ysbyty, amser o'n i'n thirteen, buodd e'n unconscious am tri mis a pethe fel 'na. A o'n i'n mynd i drafeilu i'r hospital bob dydd, a penderfynes i na, it's not for me ondyfe. O'dd smell y hospital a popeth yn dod nôl ag atgofion am 'yn nhad ontyfe. So wedyn wedes i 'tho mam, fi'n bennu ysgol amser fi'n fifteen achos o'dd dim income 'da mam. O'dd mam ddim yn gallu gwitho, o'dd 'i chefen hi'n dost. Originally, o'dd chwa'r fi wedi bod yn gwitho'n Boots y Chemist a wedodd hi, 'O, ga i job i ti. Fel 'na o'dd hi 'slawer dydd. Who you know ontyfe. 'Ga i job i ti yn Boots y Chemist'. Reit, ffein. So a'th application mewn fan'na, a o'dd ffrind 'da fi'n ysgol o'dd hi'n mynd i ga'l interview yn Slimma, y ffactori yn dre ondyfe, a wedes i 'O 'daf i 'da ti'. So elon ni lan a gethodd y ddwy ohono ni job. A es i gatre a gweud 'tho mam. O'dd mam ddim yn hapus iawn, achos wedodd hi, 'Os nag wyt ti'n lico fe bydd dim byd 'da ti i gwmpo nôl ar. So ti wedi treial un exam, na dim byd ontyfe'. Achos o'n i'n bennu yn, o'n i'n fifteen yn January. O'n i'n bennu yn Pasg wedyn. A dechre yn y ffactori. Lle dylen i fod yn cymryd, beth o'n nhw pyr'nny? GCSEs wy'n credu ontyfe? [Lefel O]. Cymeres i ddim o reina wedyn. O na, o'n i'n mynd. So, off â fi, a es i i'r ffactori, a wedodd mam, 'Paid ti â dod gatre fan hyn a gweud bod ti ddim yn lico fe, achos bydd dim byd 'da ti i gwmpo nôl arno'.

00.05.20: O'dd hi eisiau chi aros 'mla'n yn ysgol?

O'dd. O'dd hi moyn i fi ga'l addysg bellach ontyfe. A diwrnod ar ôl i fi ddechre'n Slimma da'th llythyr o Boots y Chemist yn cynnig job i fi. Ond o'dd e'n too late wedyn. O'n i wedi dechre'n Slimma a fan'na bues i am bues i am thirty two years.

00.05.34: Pan ethoch chi lan i Slimma gethoch chi rhyw fath o interview neu o'dd prawf ne' rhwbeth i ddangos bod chi'n gallu neud y gwaith?

O'dd, o'dd. O'dd, o'dd. Oeddech chi, o'dd fel pishin o bapur, a lein arno fe, a wedyn o'ch chi'n gorfod, fel machine test, o'dd fel sech chi'n meddwl, sgwigl ar y papur ac o'ch chi'n gorfod controlo'r machine i, y nodwydd. O'dd dim ede'n y nodwydd. A mynd rownd y twlle, neud twlle bach ar ben y llinell, a pethe fel 'na chi'n gwbod.

O'ch chi'n gallu neud e?

O'n. Jiw, jiw o'n.

Yn rhwydd ife?

Wel, o'n i'n ddigon cyfarwydd a iwso machine chwel ife.

Beth am ych ffrind wedyn te?

Do, do. O'dd hi â eitha diddordeb mewn gwnïo hefyd chwel ontyfe,

00.06.10: Wedyn beth o'dd y swydd o'ch chi wedi ca'l? Machinist?

Jest basic machinist. Chi'n gwbod o'dd e lan i chi wedyn beth o'ch chi'n neud ontyfe. Chi'n gwbod o'dd digon o ddiddordeb 'da fi. O'n i bytu bod, wel ar y diwedd, o'n i'n gallu iwso pob machine o'dd 'na. Chi'n gwbod.

00.06.24: Beth o'ch chi'n gwbod am Slimma cyn mynd 'na te? Chi'n gwbod, o'dd y ffatri'n y dre.

O’dd, o’dd. Jest tu allan ar yr hewl Tregaron fan’nna. Wel, o’n i’n nabod rhai o’r merched o’dd yn gwitho ‘na. Four and a half days o’dd e. Fel dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher, dydd Iau a bennu amser cino dydd Gwener, ne’ amser te dydd Gwener a o’dd y pai yn dda. Rhyw, fi’n credu, sen i wedi whileo ma’ ‘da fi, fi’n credu bytu deg punt yr wthnos o’n i’n ca’l. Ond jiw, jiw, o’dd ‘na’n arian da pyr’nny chwel. Nineteen Seventy ontyfe. O’dd hwnna’n gwd arian chwel.

00.06.59: Beth o’ch chi’n neud â’r arian te?

Hala fe fwy. Chi’n gwbod, fifteen, yntyfe. O’n i’n mynd mas, mynd mas â punt pyr’nny chwel. A fi’n cofio o’n i’n yfed, yn mynd i dafarne’r dre yn fifteen, sixteen. A o’dd punt yn ca’l one and ten yn yr hen arian, o’dd Ponies. O’n i’n ca’l cwpwl o reina a cadw two and six yn y back pocket i dalu i fynd mynd i’r dans wedyn. A o’dd punt yn ca’l gwd nosweth yntyfe.

00.07.27: Chi’n cofio pwy flwyddyn dechreuoch chi ‘na?

Saith deg.

00.07.35: Ydych chi’n cofio’r pay packet gynta gesoch chi, arian yn ych llaw fel ‘na, shwd o’ch chi’n twmlo?

Excited i ga’l arian i’n hunan. Achos fel o’n i’n gweud, o’dd ‘da ni wastod bwyd ar y ford gatre ond o’n i byth yn gyfoethog te, ar ôl colli ‘nhad. Wel, sa i’n cofia nhad â iechyd da eniwê. A erbyn hynny o’n i wedi symud lawr i dŷ bach yn y pentre, chi’n gwbod a dim ond mam a fi a’m mrawd o’dd ondyfe. Chi’n gwbod, amser o’n i’n blentyn, jest cyn i dad marw, o’dd e’n ca’l Sickness, rhyw ddeg punt ife yr wythnos, a o’dd e wedi safio i fi ca’l gitâr a wedi talu fifteen pound am gitâr. Wel, chi’n gwbod, o’dd hwnna’n lot o arian i dalu am gitâr. O’dd e’n wthnos a hanner o wages o’dd e.

00.08.20: O’ch chi’n gorfod rhoi peth gatre wedyn?

O’n i’n helpu mam, o’n. Chi’n gwbod, dim ond fi a’m mrawd o’dd gatre dofe. A o’n i’n helpu mam â bwyd a pethe fel ‘na ontyfe?

00.08.31: Chi’n cofio’r diwrnod cynta dechreuoch chi ‘na?

Dim llawer, nadw. Nadw, achos o’dd e bach yn, sa i’n gwbod. O’ch chi’n mynd mewn a o’dd dros gant o bobol yn gwitho ‘na. Sŵn y machines a enwedig i ferch ffarm, o’n i mewn drw’r amser a sŵn machines drw’r amser. Chi’n gwbod ‘da fi ar y ffarm o’n i’n joio bod mas ar y ffarm dofe. O’dd e’n dipyn o sioc i’r system ontyfe.

Fi’n siwr. Beth yn gwmws o’n nhw’n neud ‘na?

Trwser i o’n i’n neud, wel i gyd fi’n credu i Marks and Spencers.

00.09.02: Ife rhai dynon ne’ menywod?

Menywod mwya’. Ie.

A pa fath o drwser o’n nhw wedyn. O’dd ‘na zips a pethe ynddyn nhw?

O’dd dim dal. Pob range ondyfe. O’n i’n enjoio fe a cwmni da ‘na, a merched a lot o hwyl ontyfe, er bod ddim lot o amser i ni ca’l enjoio achos o’dd e gyd piece work, a o’dd rhaid i chi neud ych targets ne bydde dim werth i chi fynd mewn, chi’n gwbod, ar basic pay ontyfe.

00.09.24: O’ch chi’n ca’l ych talu yn ôl faint o’ch chi wedi’i neud?

O, ie, ie, ie. Ie, ie, so many, wel, minutes i neud pob peth chwel ife.

00.09.33: Pam o’ch chi’n dechre’ ‘na wedyn o’ch chi yn dipyn o egspert ar wnïo beth bynnag, ond o’dd rhywun yn dangos i chi beth o’ch chi fod i neud?

O’dd, o’dd. O’dd training instructors, sawl un chi’n gwbod ontyfe. O’n nhw’n penderfynu, pwy, beth o’ch chi moyn, wahanol sgilie i wahanol jobyn chi’n gwbod ontyfe. A chi’n gwbod, os o’ch chi’n eitha da o’ch chi’n neud zips, ne’ rwbeth fel ‘na, ne’ os och chi ddim cystal byddech chi’n mynd ar Batac (?) machine, which o’dd yn awtomatig a jest rhoi y trwser mewn a o’dd popeth arall yn neud drosto i chi, chi’n gwbod ontyfe. O’dd dim lot o sgilie. O’dd wahanol lefel o sgilie ontyfe.

00.10.07: Ond o’dd y bobol yn ca’l llai o arian wedyn?

Na, o’dd eu targets nhw, o’dd targets ‘da chi chwel, chi’n deall. O’dd rhywun ar work study yn dod rownd a gweud chi’n gorfod neud so many mewn awr, o bopeth chi’n gwbod, ontyfe.

00.10.22: O’dd ‘u targets nhw’n uwch te? O’n nhw’n gorfod neud mwy ohonyn nhw o’n nhw?

O’dd, o’dd.

00.10.29: O’ch chi’n gweud bod chi’n nabod bobol ‘na cyn ‘nny, o’dd unrhyw un o’r teulu ‘na?

Na, na. Neb o’r teulu. Jest merched ysgol a pethe fel ‘na ontyfe. Chi’n gwbod, ‘na’r unig le yn Llambled rili, ontyfe, lle mowr, ontyfe.

Pwy o’dd bia’r ffactori te? O’ch chi’n gwbod pwy o’dd y bosys?

Slimma, a wedyn a’th e’n Dewhirst fi’n credu. Slimma o’dd e pan ddechreues i a wedyn a’th e’n Dewhirst. Marks and Spencers o’n i wedi bod yn neud y gwaith i ar hyd y blynydde o’n i ‘na. Dim ond i nhw o’n i’n neud a o’n nhw’n keen, chi’n gwbod. O’dd safon y gwaith yn gorffod bod yn sbot on.

00.11.06: Pwy o’dd yn sieco fe te?

O’dd checkers ‘da chi, o’dd, o’dd.

O’ch chi’n ca’l ambell i beth nôl?

O jiw, jiw, o’ch. Jiw, jiw, os o’ch chi’n neud leg seams falle bydde twll ‘da chi, byddech chi’n mynd mor ffast, bydde twll yn y go’s a byddech chi’n gorfod ail neud e a pethe chi’n gwbod ontyfe.

00.11.21: O’n nhw’n itha strict ymbytu pethe fel ‘na?

O’n. Quality. Keen iawn.

00.11.28: O’ch chi’n gweud bod e’n swillyd ‘na, beth oedd yr impressions erill sydd gyda chi o’r ffactri. Chi’n gwbod, o’dd e’n fowr, o’dd e’n ole, o’dd e’n lan?

O’dd, o’dd. O’dd e’n iawn. A o’dd cantîn bach neis ‘da ni i ca’l cino ‘na. Er hanner awr, deg munud yn y bore, a hanner awr i gino, a deg munud y prynhawn, ‘na i gyd o brêcs o’dd. A chi’n gwbod, dependo shwd o’dd hi’n mynd, o’dd rhaid i chi pen lawr a gwitho trw’r dydd a’r tickets a chi’n gwbod, o’dd dim lot o amser. O’ch chi ffaelu enjoio ond o’dd e yn bleserus achos o’ch chi fel teulu, chi’n gwbod. Os o’dd rhywun yn hapus, o’dd wastod hen party, neu birthday party, neu rwbeth. Os o’dd chi whant mynd ontyfe, o’dd e’n gwd.

00.12.12: O'ch chi'n gwitho yn yr un lle trw'r amser? Chi'n gwbod, o'dd ych machine chi fan'na a fan'na o'ch chi?

Wel do, ond chi'n gwbod fel o'n i'n gwella, sgiliau gwitho ontyfe, bues i wedyn fel yn 'floater' o'n i'n galw fe. O'n i'n mynd rownd, gwedwch. Oce, falle bydde rhywun ddim mewn 'ma ar zips heddi. Oce, elen i i neud y zips wedyn am diwrnod. Falle diwrnod ar ôl 'nny, so and so, rhywun arall off ar 'waistbands'. 'Ti Helena'n gwbod shwd i neud 'na'. Chi'n gwbod, o'dd e'n eitha flexible fel 'na. Ond chi'n gwbod 'na beth sydd wedi dod 'mla'n â fi i galler neud y ... O'dd e'n ysgol dda i fi, neu bydden i ffaelu neud y job fi'n neud heddi. Chi'n gwbod.

O'ch chi 'di neud sawl peth?

Chi'n gwbod, o'n i'n gallu iwso pob machine o'dd 'na.

O'dd lot o bobol erill yn gallu neud 'na?

Na, dim fel 'nny, na.

Fel o'ch chi wedi pigo'r sgiliau 'na lan?

Wel, diddordeb chwel ontyfe.

O'n nhw ddim wedi hala chi ar gwrs ne rwbeth, ne dangos i chi

Na, na. Jes diddordeb yn y gwaith chwel ontyfe. O'n i'n joio fe.

Pwy amser o'ch chi'n dechre yn y bore te?

Hanner awr wedi saith i cwarter i whech. Ond wedyn o'n i'n bennu amser cino dydd Gwener wedyn.

Fel o'ch chi'n mynd i'r gwaith?

O'dd bys yn dod o Llandyfri, a pigo ni lan. Minibus fach.

Bys y gwaith o'dd hwnna?

Ie, o'n nhw'n syleio hwnna. Wedyn bues i'n mynd â'r car. Bennodd hwnna achos agoron nhw ffactri fach yn Llandyfri. Ond stopodd y bys wedyn achos o'dd bobol Llandyfri obviously'n mynd i witho'n y ffactri fach yn Llandyfri. So o'n i'n gallu gwitho erbyn 'nny. Prynes i car am thirty pound. A o'n i'n ca'l tri galwn o betrol am bunt yn y dyddie 'na.

Beth o'dd y car, chi'n cofio?

A35. Mam annwyl. 'Na fe.

O'dd e'n tano'r y bore?

O'dd, o'dd. O'dd e'n mynd â fi'n iawn, o'dd.

00.14.02: Gallwch chi jest disgrifio diwrnod o waith i fi te?

Wel, o'n i'n treial mynd mewn mor gynnar â gallen i. Os o'n i'n gwbod bod fi ar certain job o'n i'n dechre cyn hanner awr wedi saith i cal, o'dd tickets 'da chi wedyn, chi'n gwbod y time sheets 'da chi i ca'l cwplwl 'mla'n chi'n gwbod, i neud ych targets chi'n gwbod. O'n i'n gwbod faint o'dd rhaid i fi neud mewn diwrnod. Chi'n gwbod amser o'n i ar hems, fi'n credu, o'dd rhaid i chi neud bytu pedwar cant o hems, o drwseri mewn dwy awr. Chi'n gwbod in bundles of twenty, ontyfe, neu fifteen ontyfe. So o'dd rhaid i chi bod yn go shifftys wrthi.

00.14.38: O’ch chi’n gallu neud mwy ‘na’r targets o’n nhw wedi gosod i chi?

Dim lot. Sen i’n gallu neud y targets, o’dd y wages wedyn fel, chi’n gwobod, o’ch chi bach above y basic wedyn, so o’dd e werth e te ontyfe.

00.14.52: O’dd rhai ffaelu neud ‘u targets?

O’dd. O’ch chi’n treial ca’l rhywun i helpu nhw wedyn i ddangos ble o’n nhw’n mynd yn rong. Handling ne pethe fel ‘na. Ne’ falle bod rhywbeth yn rong ar y machine. Ne’ chi’n gwobod, o’dd e yn tyff.

00.15.06: Shwd o’ch chi’n twmlo bod chi’n gwitho ‘na, chi’n gwobod?

Wel, o’n i ddim yn gwobod gwell o’n i. O’n i ddim yn gwobod gwell. Nawr ni yn. Ond dim pyr’nny. Ar y pryd o’dd dim, fel o’dd mam wedi gweud, ma’ rhaid i ti stico ati, achos o’dd dim swydd arall i ga’l.

Ond o’ch chi’n gweud bod chi’n hapus ‘na?

O’n i yn hapus ‘na, o’n. Achos o’n i ddim yn gwobod gwell ontyfe. Nawr, ma’ fe’n wahanol fan hyn. Fi’n neud, sort of, yr un gwaith, ennill gwell arian a cymdeithasu yr un ffordd a pobol, gweld rhywun, gwyneb wahanol pob dydd.

00.15.33: Ond ych chi’n gwitho ar ych liwt ych hunan nawr, smo chi yn gweld cymint o bobol â byddech chi, gwedwch yn y dyddie o’ch chi’n y ffactri. O’ch chi’n siarad ...

Ond o’dd dim amser ‘da chi i siarad â pobol ‘na wedyn, yn y gwaith, o na, allech chi byth â mynd off y machine i gloncan ne bydde’ch target chi mas trw’r ffenest. Dim ond amser cino. A chi’n gwobod, cymdeithasu penwthnos ne’ yn y nos os o’ch chi’n mynd mas ontyfe.

00.15.57: O’dd unrhyw drips ne’ unrhywbeth fel ‘na?

O, jiw, o’dd. O’dd, gwd. A o’n i’n neud partis Nadolig a dinners. O’n i’n ca’l, fel o’n i’n gweud o’n i’n gweud gwd hwyl chi’n gwobod, ontyfe.

00.16.05: Pwy o’dd yn trefnu hwnna te?

Fel o’dd Social Committee ‘da’n ni wedyn, yn trefnu pethe fel ‘na.

Nage’r gwaith ‘i hunan o’dd yn trefnu fe?

O’dd Social Club gyda ni chi’n gwobod, ontyfe. Fel fi’n gweud, o’dd e’n gwd chwel ontyfe.

00.16.20: O’dd adeilad fel Social Club neu jest y bobl y Social Club chi’n meddwl?

Yn y ffactri.

O’dd dim actual lle.

Na, na, na. O, nago’dd. Fel yn y cantîn o’n i yn ca’l, os o’dd rhywun â plant neu grandchildren neu pethe fel ‘na, o’dd parti Nadolig a Santa’n dod ‘na. Chi’n gwobod o’dd hwnna’n gwd, neu fel diwrnod diwetha gwylie haf a Nadolig wedyn, lawr yn y rygbi clyb o’n ni gyd yn cwrdd a ca’l disgo a pethe fan ‘na wedyn ontyfe. Joio chwel.

O, le o’dd rhan fwya’r bobol yn dod te o’dd yn gwitho ‘na?

O’n nhw’n dod o Llambod, Llanybydder, Llandysul, Tregaron, Aberaeron.

Ife menywod o’dd ‘na fwya ne’ dynon?

Na, menywod mwya ond yn y diwedd o’dd rhai bois yn dod a gwnïo ar y machine. Ar y dechre menywod o’dd rhan fwya’ ontyfe. Ambell i ddynd ond o’dd mwy o ddyndion yn dod ar y diwedd, yn y blynydde diwetha aton ni te.

O’dd menywod priod yn gwitho ‘na te?

O’dd. O’dd. O’dd. Wel, bues i’n lwcus achos ges i fynd wedyn, amser ges i plant, ie, yn 1982 gath Lyndon ei eni, ie. Ges i ar ôl fe wedyn, bytu, maternity leave wedyn, ges i fynd nôl fel part time wedyn. Ne’ fito mewn gyda nhw, rhyw dri diwrnod. Tri diwnod o’n ni ne’ os o’n nhw’n despret gwedwch, ffone nhw fi’n bore, ‘gweitha extra diwrnod, sneb ‘da ni i neud y jobyn hyn’. So os o’dd rhywun ‘da fi i edrych ar ôl y plant wedyn, o’n i’n mynd mewn extra diwrnod, chi’n gwbod. O’n nhw’n deg iawn fel ‘na i fi ife.

Ond pan o’ch chi’n ca’l y plant, o’ch chi’n cwpla wedyn o’ch chi?

Na, maternity leave chwel ife.

A wedyn o’ch chi’n penderfynu wedyn os o’ch chi eisiau sefyll ‘mla’n ne bido?

Ie. Fi’n cofio ges i bwnshyn o rosys mowr. Wel, o’n i’n llefen. A o’dd e fod yn amser hapus achos o’n i’n bennu i ga’l plentyn ontyfe. Ond jest dim mynd i gwaith a pethe chi’n gwbod, achos o’n i’n joio fe dofe.

00.18.26: O’n i’n mynd i ofyn i chi os o’ch chi’n ca’l, o’n nhw’n encourago chi i fynd, fel o’ch chi’n gweud, o’ch chi wedi ca’l job, jobsys fel ‘floater’ yn mynd o gwmpas. O’n nhw’n encourago pobol eraill i neud hwnna?

O’n.

Ne’ neud jobs gwahanol o fewn y ffactri?

O’dd. Bues i’n supervisor wedyn chi’n gwbod, ontyfe. Chi’n gwbod o’dd y managers yn galler gweld pwy o’dd yn suitable i’r jobs a pethe fel ‘na ontyfe. Chi’n gwbod bues i lan yn Llundun wedyn, gyda’r ffactri, i Marble Arch, un o’r managers a fi a supervisor arall, i ga’l gweld fel o’n nhw’n neud y tests ar y defnyddie a pethe fel ‘na.

00.19.03: O’dd ffactri arall lan fan ‘na o’dd e?

Na. Ond o’dd HQ lan fan ‘na, chi’n gwbod yn Marble Arch ontyfe. O’dd e’n ddi-ddorol i weld ‘na ontyfe. Ambell i gwrs fach fel ‘na ontyfe.

Wedech chi i’r rhai o’dd yn fodlon gwitho o’dd modd i chi ddod ‘mla’n, chi’n gwbod?

O, o’dd. O’dd, o’dd, o’dd, o’dd. Wel, o’dd ‘yn ffrind, aeth hi ‘mlaen i fod yn manageress ‘na, chi’n gwbod. Hi o’dd y manageress pan bennon ni nawr, a gath hi fynd mas ‘da’r cwmni i Morocco wedyn achos o Llambod, pan gaeodd Llambod, deuddeg mlynedd yn ôl elon nhw mas i Morocco, a gath hi contract tair blynedd mas fan’na ond o’dd e’n iawn iddi hi fynd achos o’dd hi ddim yn briod na plant na dim byd chi’n gwbod ontyfe. Bydden i ddim wedi even meddwl ymbytu mynd ond bues i draw gyda hi fan’na sawl gwaith chi’n gwbod. Do. Nelon nhw brogram, ‘Taro Naw’ ne rwbeth, deuddeg mlynedd yn ôl.

O’dd e siwr o fod yn rhyfedd iddi fynd o fan hyn i mas fan’na.

O’dd, o’dd. O’dd e’n wahanol. Ond fan hyn, beth o’n ni’n ca’l – five pound forty an hour amser bennon ni a fan’na forty five pence an hour o’n nhw’n ca’l.

‘Na pam o’n nhw wedi mynd ife?

Ie. O'n nhw siwr o fod wedi mynd o fan'na nawr. Ma' fe wedi mynd yn rhy ddrud. O'n nhw'n ciwo lan yn y gât am jobs 'na. A o'dd good working conditions gyda nhw. Air conditioning a popeth fel 'na. O, o'dd.

00.20.17: Bydde gofyn bod air conditioning mas fan'na bydde fe.

Fi'n falch, bues i draw cwpwl o withe ati. O'dd e'n neis.

Shwd o'ch chi'n twmlo am y cyflog te? Am y pai, o'ch chi'n twmlo bod e'n deg?

O'dd e'n gwd, o'dd. O'dd. Ond o'dd e'n waith caled. O'dd unrhyw un sydd wedi bod yn gwitho yn ffactri fel Slimma, o'dd dim ofan gwaith arnyn nhw. O'dd rhaid iddyn nhw witho.

00.20.39: O'dd rhai ffaelu neud y gwaith te?

O'dd. Wel, ...

A beth o'dd yn digwydd, achos ma' rhai pobol mwy practical neu'i gilydd os e?

Ie.

Ma' rhai pobol jest ffaelu dod i ben â pethe.

Either o'ch chi'n ca'l y sac ne o'ch chi ddim yn ca'l. Chi'n gwbod o'n nhw'n neud y tests 'ma arnoch chi cyn bod chi'n dechre, and if you weren't suitable, chi'n gwbod os o'ch chi'n really, really slow, falle bydden nhw'n gweud bod chi ddim yn suitable i'r gwaith eniwê. Ontyfe?

00.21.05: A wedyn 'nny, pwy flwyddyn briodoch chi wedyn te?

Wow, nawrte. Let's think.

Dylech chi gofio hwnna.

Fi'n gwbod. Seventy nine.

A gario'ch chi mla'n i witho 'na wedyn?

Do, do, do.

O'dd Undeb 'da chi 'na?

O'dd. Bues i'n shop steward unwaith 'fyd.

Dofe?

Do.

Pwy Undeb o'dd e te?

Tailor and Garment Workers. Ontyfe, ie.

A fel o'ch chi'n ca'l ych neud yn shop steward?

Merched, members yn foto chi mewn ontyfe, ond pan ges i blentyn wedyn a part time, bennes i fod yn shop steward wedyn achos o'dd rhaid i chi fod full time. Chi'n gwbod, o'dd rhaid bod chi 'na drw'r amser i fod yn shop steward chwel ontyfe.

00.21.56: A beth o'dd ych rôl chi fel shop steward? Beth o'ch chi'n gorfod neud?

Wel, unrhyw broblem, chi o'dd yn siarad â'r managers a pethe fel 'na.

00.22.04: Pwy fath o brobleme o'dd yn codi te?

Wel, rhywun ddim yn meddwl bod nhw'n ca'l 'i trin yn deg a pethe fel 'na, wages, newid orie gwaith, chi'n gwbod. Fi'n cofio, gelon ni haf twym ,twym, twym unwaith. O'dd hi'n terrible 'na so wedyn diseidon ni, a o'dd yr Union, a newid orie gwaith. O'n i'n dechre pump, neu whech o'r gloch y bore wedyn a o'n i'n ca'l mynd gatre erbyn, o'dd hi'n mynd yn dwym iawn, iawn wedyn, chi'n gwbod. Rhyw bethe fel 'na. Pethe mân fel 'na, dim byd seriws ontyfe.

00.22.35: O'ch chi'n teimlo bod y bosys yn deg? O'n nhw'n bobol o'ch chi'n gallu mynd i siarad â nhw?

O'n. Approachable. O'n.

Pwy o'n nhw te? O'n nhw'n bobol leol? Ne bobol o bant?

Na, pobol o bant o'n nhw, rhan fwya' nhw, ie. O'n nhw'n neis iawn.

00.22.49: Fi'n gwbod o'ch chi ddim yn ca'l lot o gyfle i glebran ife, ond pwy iaith o'ch chi'n siarad yn y ffactri? O'dd lot o bobol yn siarad Cymra'g, ne' Saesneg?

Na, Cymra'g. Ond Saeson o'dd y managers, rhan fwya ontyfe. O'dd, o'dd.

A o'dd pobol yn talu'r Undeb bob wythnos ife, neu bob mis?

Ie, ie. Mynd mas o'u pai nhw wedyn. O'dd.

00.23.16: O'dd 'na unrhyw beth o'ch chi ffaelau datrys erio'd?

Na, sa i'n credu. Na.

00.23.24: Beth o'ch chi'n gorfod gwishgo wedyn, o'ch chi'n gorfod gwishgo rhywbeth arbennig i'r gwaith?

Na, o'dd pawb yn gwishgo beth o'n nhw'n moyn. O'dd rhai'n mynd â rolyrs yn eu gwallte pyr'nny. O'dd ffasiwn pyr'nny a chi'n gwbod o'dd gwallt hir pyr'nny a bydden ni'n gorfod clymu gwallt nôl, ond o'dd lot yn dod mewn â rolyrs yn eu gwallte. Wir i chi. Rhywbeth cyfforddus.

Bob dydd?

Na, dim bob dydd. Ond os o'dd rhywbeth mla'n y nosweth 'nny 'dan ni, falle golche chi'ch gwallt yn y bore a rhoi rolyrs ynddo fe a mynd i gwaith yn rolyrs. Meddylwch. 'Na fe, o'dd neb yn gweld chi chwel.

Pam lai ife?

O'dd tabards wedyn ambell waith ontyfe, fel overall ontyfe i safio bach o dillad chi, ond rhywbeth cyfforddus. O'dd dim un iwniform ne dim byd fel 'na.

00.24.07: Gan bod chi'n gwitho gyda machines, o'dd lot o reole? Chi'n gwbod, fel ma' ddi heddi, Health and Safety yw popeth ife, o'dd lot o reole pyr'nny?

O'dd. O'dd "guards" a popeth ar y machine, chi'n gwbod ontyfe.

00.24.23: O'dd rhai'n ca'l damweinie 'na withe?

O jiw, jiw, o'dd.

Beth o'dd yn digwydd?

Fi'n cofio nodwydde, wel ges i nodwydd reit lawr trw 'mys unwaith. Dim concentrato chwel, ontyfe. A fi'n cofio mynd i droi machine button hole off, a while am yr off swits ond

dalodd y belt o’dd yn mynd rownd y machine yn ‘y mys i a gorffes i ga’l stitshys yn ‘y mys. Fi’n cofio un merch yn mynd i cloncan â rhywun a’i gwallt hi’n mynd mewn i belt y machine. O’dd pethe cas yn digwydd ‘na chi’n gwbod ontyfe. Ond, ‘na fe, fel ‘na mae hi ontyfe.

00.24.59: O’dd unrhyw un yn ca’l iawndal neu compensation am rywbeth fel ‘na wedyn?

Boddres i ddim ontyfe. ‘Yn hunan. Ond, chi’n gwbod yn wahanol heddi. Ma’ lot fwy yn claimo heddi. Pyr’nny, pawb yn claimo am popeth heddi. Na, o’dd e ddim yn ffôl ontyfe.

Ond gwedwch chi bod chi’n ca’l cwt ne’ rhwbeth yn y gwaith, o’dd nyrs ne’ rywun ‘na?
O’dd, o’dd. O’dd first aid room ‘da chi wedyn a rhywun.

Un o’r gweithwyr yn helpu chi?

Ie, ie. Un o’r gweithwyr wedyn yn trained yn, o’dd hi’n ca’l neud first aid course wedyn. Un ne ddwy siwr o fod. O’dd. Rhyw fan bethe fel ‘na o’dd.

00.25.36: Gorffoch chi fynd i’r ‘sbyty i ga’l y stitshys siwr o fod?

Na, lawr at doctor.

O ife. Smo chi’n chi’n lot o ffys?

Na. Jiw, jiw, na. Ne’ falle torre nodwydd a tasgu i llygad rhywun. Pethe man fel ‘na ontyfe.

00.25.53: Beth o’dd rheole’r ffactri te? Ma’ rules yn bob ffactri o’s e? Chi’n gallu cofio beth o’dd y rheole fan’na?

Jiw, na. Fi’n cofio o’n nhw’n itha strict ar cloco mewn, chi’n gwbod. O’n nhw ddim yn moyn i chi fod yn ddiweddar. Dechre, o’n nhw’n itha strict fel ‘na. O’dd clocking in machine, fel carden ‘da chi a chi’n rhoi fe yn y machine ‘ma. Chi’n gwbod o’ch chi’n ca’l warning os o’s, verbal warning, written warning, a rhyw bethe fel ‘na.

Gesoch chi warning?

Sa i’n credu dofe, sa i’n credu. Na, chi’n gwbod o’dd dim ishe lot o rules achos chi’n gwbod. O’dd dim amser ‘da chi. Hanner awr o’dd i gino ond yn amal os o’ch chi ddim yn cymryd hanner awr, o’dd well ‘da fi mynd nôl i’r machine i ga’l treial neud cwpwl o drwseri extra chwel ife ontyfe.

Pam ‘nny te?

Wel, os o’n ni ar ôl ar y targets bydde fe rhwbeth bach ‘mla’n bydde fe.

00.26.46: O’ch chi’n teimlo pwyse fel ‘na?

O’dd. O’dd.

O’dd e’n cadw chi i fynd?

O’dd g’lei. Achos o’n i’n watsho programme ymbytu Amazon, chi’n gwbod y boi ‘ma. Watshoch chi fe?

Na, fi ‘di clywed amdano fe a fi’n nabod rhywun buodd yn gwitho ‘na’n ddiweddar.

O’dd e ffaelu cadw lan.

Ie, ond fel ‘na. ‘Na beth yw ffactri. O’n i’n teimlo, fi ‘di bod fan’na type of thing. Chi’n deall fi. O’dd e ddim mor intense â ‘na, ontyfe. Ond o’dd e bytu fod. Wir i chi. Wel, o’dd

rhaid i chi neud e ontyfe. Os nagoch chi'n neud ych targets bydde cwestiynne pam o'ch chi ddim wedi neud e, a peth fel 'na ontyfe.

Os nagodd hwyl arnoch chi, chi'n gwbod ambell i waith...

Tyff. Tyff. Wir i chi. O na, fi'n gwbod beth chi'n gweud.

O'ch chi'n twmlo bod e mor intense â 'na, y targets 'ma?

O'dd e yn intense, o'dd. O'dd. Chi'n gwbod ar y pryd o'ch chi'n meddwl, o 'na i fe achos ga' i, chi'n gwbod o'ch chi'n meddwl am yr arian ar diwedd y dydd. Ma'n werth neud ugen trwser bach arall, o'ch chi'n gallu gwitho mas faint o'ch chi'n mynd i ga'l ontyfe. Mae'n werth neud e ontyfe, ond o'dd e yn intense.

00.27.57: O'ch chi'n gweud bod e'n swllyd 'na, o'dd dim byd dros y clustie ne dim byd fel 'na?

Na, na.

A o'ch chi ffael siarad. Os o'ch chi moyn chat bach 'da rhywun yn y gwaith te, beth o'ch chi'n neud? Ca'l chat amser brêc ne amser cino?

Ie, neu yn y toilet falle, chi'n gwbod.

Beth o'ch chi'n clebran fwya ymbytu 'na te?

Ar y dechre, boyfriends a pethach fel 'na chwel ontyfe. Rhyw gossips.

Achos yn ambell i ffactri ble o'dd falle mwy o dynon, o'dd storis caru 'na chi'n gwbod. Ond o'dd dim lot o ddynon yn Slimma?

Na, na.

O'dd e'n dwym 'na neu o'dd e'n o'r 'na?

Cyfforddus, o'dd e'n iawn. Jest amser yr hafe twym, twym, 'na o'dd hi'n mynd yn rhy dwym 'na wedyn, ontyfe.

Dofe? Beth, achos y machines?

Wel, o'dd gwres y machines a o'dd fel tô, o'ch chi ffael gweld mas ne dim byd chwel ontyfe. O'dd e'n mynd yn dwym ofnadw. So 'na pam o'n i'n dechre gwaith pump ne chwech o'r gloch y bore wedyn chwel ontyfe.

00.29.03: O'dd y bosys ynn gallu bod yn lletchwith? O'dd ambell i un lletchwith 'na ne' o'n nhw'n weddol ar y cyfan o'ch chi'n twmlo?

O'n ni ddim yn teimlo nhw'n too bad.

O'ch chi ddim yn twmlo ofon mynd i siarad â nhw. O'ch chi'n gweud bod chi fel shop steward. O'ch chi'n cynrychioli'r merched te, o'ch chi?

O'n. 'Na, o'n nhw'n itha da. Ond o'dd fel manager gyda ni, o'dd supervisor, gwedwch wech supervisor, wyth supervisor i bob section. Un ar bob section. Chi'n gwbod, hi falle bydde'n mynd i siarad â'r managers ontyfe. A o'dd y manager, y factory manager, walle, un o'r merched wedi gwitho'i hunan lan, wedi bod, so chi'n gwbod, o'n nhw'n deall y broblem o's o'dd problem ontyfe. Wedyn, ma' factory manager yn uwch wedyn ontyfe. Dyn rhan fwya o'dd hwnna, wedi dod ontyfe.

Pam 'nny ontyfe?

Ie, gwedwch. Gwedwch y gwir. Ie.

Ond o'ch chi'n twmlo bod merched yn dod atoch chi witho gyda cwyn weithie a bod chi'n meddwl, o jiw, jiw, beth sy' matar arno ti?

Wel, ma' rhaid i chi eistedd lawr a siarad â nhw wedyn o's e.

Ond am pa reswm o'n nhw'n dod atoch chi fwya, chi'n meddwl?

Targets yn uchel, o'dd fwya. Sa i'n cofio, wir i chi.

00.30.22: O'dd rhywbeth o'ch chi'n gallu neud am hwnna?

Wel, falle gofynen i'r work study fynd nôl a sieco fe wedyn ontyfe.

00.30.28: O'n nhw'n dod nôl atoch chi weithie a gweud bod chi'n iawn? Ne beth o'dd yn digwydd?

Sdim dal. O'n nhw'n go tyff. O'n.

00.30.40: O'ch chi'n gwitho mewn ffactri neud dillad fel 'na. Chi'n gwbod ma' rhai'n enjoio mwgyn bach. O'dd lle 'da nhw i fynd i ga'l un?

O'dd. Ar y dechre o'dd smoking. A 'na beth, ar y dechre o'dd rhan fwya bobol yn smoco. Wel, gwd hanner, fifty per cent o'n ni'n smoco. A o'n i'n un o nhw.

O'ch chi?

O'n, wir i chi. A o'dd smoking area gyda ni, cofiwch. Wel, jiw, jiw. O'ch chi'n mynd mewn 'na, o'dd dim ishe i chi cynn'u fflag. O'dd e'n fwg i gyd. Wir i chi. Fel rest room o'n nhw'n galw fe, lle o'ch chi'n ca'l coffi.

00.31.09: Dim cantîn o'dd hwnna wedyn?

Na, na, na, na, na. Wel o'dd hawl i smoco'n y cantîn a popeth chwel, pry'nny. O'dd fel rest room 'da chi – un smoking a un non-smoking. Ond stopodd hwnna wedyn chwel ontyfe.

O'ch chi siwr o fod yn despret i ga'l mwgyn bach erbyn amser brêc te?

O'n. O'ch chi'n smoco hi mor ffast i ga'l mynd nôl i witho, pry'nny nawr o'ch chi'n ca'l chat a o'dd fel clic peder neu pump o' ni'n mynd 'da'n gilydd, a o'dd yn gwitho, 'ti'n dod te', ne' o'ch chi'n mynd fel certain amser bob dydd, falle bydde ni'n pump yn mynd am gwedwch un ar ddeg. Bydde rhyw clic bach arall yn mynd ten past, chi'n gwbod, fel bod lle 'na te. Pry'nny. Ond o'ch chi'n smoco fel sech chi wedi dwgyd hi, mor ffast, o'dd dim pwynt cynn'u hi ife.

00.31.54: Shwd gyfleustere o'dd 'da chi 'na te o'ch chi'n twmlo? O'dd gofyn bod y ffactri'n eitha' glan achos ffactri dillad o'dd hi nage fe?

O'dd, o'dd. O'dd hi'n lân.

O'dd unrhywbeth o'ch chi ddim yn lico'n y ffactri? Am y conditions?

Na, sa i'n credu. Na, o'dd e'n iawn. Fel fi'n gweud, o'dd cantîn neis 'da chi, bwyd bach teidi.

O'ch chi'n ca'l bwyd 'na?

O'n. O'n i'n bwyta bwyd. O'n i'n syporto y ffactri achos o'dd e'n rhesymol iawn am beth o'n i'n ca'l ten. O'dd e'n gwd.

Pa fath o bethe o'n nhw'n neud? Chi'n cofio?

O'n nhw'n neud ciniawe a popeth 'na. Cino chi'n gwbod neu chips ne jest sangwey fach ne' rwbeth. A o'dd e'n gwd.

Ma' hwn fwy nawr i bobol sydd wedi gwitho mewn manne erill, ond wy' wedi bod yn gofyn i fenywod ydych chi'n twmlo bod chi wedi godded unrhyw effeithie, chi'n gwbod, yn yr hir dymor ar ôl gweithio 'na? Ydyw e wedi effeithio llyged, ne dwylo ne unrhywbeth fel 'na?

Na.

O'n i'n siarad â rhywun 'ddo o'dd wedi bod yn neud gwaith o'dd wedi effeithio'i dwylo hi chi'n gwbod.

Wel, ma' nwylo i ddim yn dda. Chi'n gweld hwn yn rheumatic, ond falle bydden i fel 'na eniwê. Sa i'n teimlo bod fi'n gallu rhoi'r bai ar y ffactri te.

A chi dal yn gweithio nawr.

Ma' Augusta (VSW011) , druan fach, ma' hi, ei dwylo yn terrible.

Ydyw hi?

Terrible, terrible. Ond sa i'n gwbod odych chi'n gallu beio fe ar y ffactri ne nadych chi. Alla i byth â gweud ontyfe.

00.33.19: O'ch chi'n gweud ar y dechre taw menywod o'dd y machinists fwya, a wedyn 'nny nes ymlaen dechreuodd bois ddechre 'na, bechgyn nage fe, shwd o'dd y menywod yn trin y bois wedyn?

lawn.

O'n nhw'n tynnu co's?

O'dd. Tynnu co's. O'dd lot o hwyl 'na.

Pwy fath? O'n nhw'n whare jôcs arnyn nhw?

O'dd

Pwy fath o bethe o'n nhw'n neud?

'Na beth o'dd o'dd un o'r bois, o'dd yn gwitho gyda ni ar y machine. Fi'n mynd iddi briodas e nawr. Ma' fe'n priodi wythnos i ddydd Sadwrn. A ni wedi cadw'n ffrindie chi'n gwbod ontyfe. Gwd ffrind. A'r ferch a'th mas i Morocco. Ni'n dwy yn mynd i briodas e wythnos i dydd Sadwrn nawr. Fi'n treial meddwl nawr, beth o'n i'n neud. A 'na beth o'dd y bois wedyn, o'dd un, Dai o'dd enw fe. Dai beth o'dd e? Dai Sbecs sy'n priodi dydd Sadwrn. Beth o'dd hwn te? Sdim ots eniwê. O'dd e fel y miwsig yn y bore, geso pwy flwyddyn o'dd y gân. O, waw, o'dd e'n gweiddi mas, chi'n gwbod. O'dd e wastod yn reit. O'dd amser i ryw bethe mân fel 'na ontyfe. Wharieth ontyfe.

00.34.20: O'n nhw'n whare miwsig 'na o'n nhw?

Miwsig. O'dd.

Beth o'dd 'mla'n te? Radio?

Radio o'dd ar y tannoys, o'dd.

Pwy station o'dd e?

Ie, gwd cwestiwn. O’dd e’n newid o certain stations, certain amser, o’dd e’n newid.

Pwy o’dd yn penderfynu te?

Fel y social committee chwel ontyfe.

O, reit.

Chi’n deall.

Ie.

Beth o’dd hwnna? Golden Oldies o’dd e, o naw i ddeg.

Falle taw Radio One o’dd hwnna ife?

Ne Radio Two falle. Fi ‘n mynd nôl blynydde cofiwch. O’dd hwnna’n gwd ontyfe. Na, sa i’n cofio’r pethe dwl o’n i’n neud. Nagw, wir i chi. Fi ffaelu meddwl am dim byd, chi’n gwbod.

00.35.08: Pam briodoch chi wedyn o’dd y gŵr yn hapus bod chi’n cario ‘mla’n i witho.

